OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 2414

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004

### Diwygio Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

**7.**—(1) Diwygir Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "o dan Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 8";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**8.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C) neu 115(6B) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

(**1**) O.S. 2002/812 (Cy.92); gwnaed y diwygiad perthnasol gan O.S. 2002/2622 (Cy. 254).